

Dewiswch Eich
Dyfodol

Choose Your
Future

#dewiswcheichdyfodol
#chooseyourfuture



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Annwyl riant/gofalwr,

Dyma'ch gwahoddiad CHI!

Dewiswch Eich Dyfodol 2022
Ffair gyrfaedd rithwir
Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022, 10am-5pm

Ymunwch â ni ar-lein ynghyd â thua 100 o gyflogwyr o bob cwr o Gymru a fydd yn dangos y gyrfaedd a'r swyddi sydd ar gael mewn amrywiaeth o sectorau.

Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 10 neu uwch, hoffem i chi ymuno â ni ar gyfer ein digwyddiad rhithwir Dewiswch Eich Dyfodol 2022, ble bydd cyfle i chi sgwrsio ag arbenigwyr o'r diwydiant i gael gwybod mwy am sut y gallwch helpu eich plentyn i wneud penderfyniadau gyrfa ar gyfer y dyfodol.

Bydd Dewiswch Eich Dyfodol 2022 yn dod ag amrywiaeth o gyflogwyr o bob cwr o Gymru at ei gilydd a bydd cyfle i chi ymweld â stondinau rhithwir yr arddangoswyr a sgwrsio â chyflogwyr yn y fan a'r lle.

Cynhelir y digwyddiad ar blatfform digidol penodedig lle bydd y cyflogwyr yn darparu gwybodaeth a dolenni i bob standin a bydd staff wrth law drwy gydol y dydd i roi cyfle i'ch disgyblion ofyn unrhyw gwestiynau.

Bydd cyfle i gyfarfod ag oddeutu 100 o arddangoswyr o sectorau blaenoriaeth gan gynnwys deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, adeiladu, technoleg greadigol a digidol, ynni a'r amgylchedd, cyllid, bwyd, ffermio, gweithgareddau ar y tir, gofal iechyd a chymdeithasol, economi sylfaenol dynol, gwasanaethau cyhoeddus a thwristiaeth a lletygarwch, ac mae'n gyfle delfrydol i drafod ac ymchwilio i ddyfodol eich plentyn.

Bydd y wybodaeth a'r dolenni diweddaraf i ymuno â'r digwyddiad ar gael ar [wefan Gyrfa Cymru](#).

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â marchnata@gyrfacymru.llyw.cymru

0800 028 4844

Sgwrs ar-lein / Webchat

post@gyrfacymru.llyw.cymru / post@careerswales.gov.wales

gyrfacymru.llyw.cymru / careerswales.gov.wales

